# Cenn@d

AWST 9 2023 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* — RHIF 128


## Dathliad yng Nghadeirlan Tyddewi

Un o fendithion bod yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru yw cael gwahoddiadau i wahanol achlysuron ar draws Cymru. Nid yn unig i fynychu cyfarfodydd blynyddol yr enwadau anghydffurfiol eraill, er enghraifft, ond achlysuron arbennig ym mhob rhan o'r wlad. Ysgrifennais yn barod am yr oedfa i ddathlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 75 oed yng Nghaerdydd. Yn ddiweddar, ar 25 Gorffennaf, mynychais wasanaeth arall, ond y tro hwn i ddathlu 900 mlynedd o gydnabyddiaeth ryngwladol a chadarnhad o Dyddewi fel lle o bererindod. Yn y flwyddyn 1123 datganodd y Pab Callixtus II am y tro cyntaf fod dwy bererindod i Dyddewi gyfystyr ag un daith i Rufain. Roedd hefyd, wrth gwrs, yn rhoi cydnabyddiaeth ryngwladol i Dewi Sant ei hun.

Profiad arbennig oedd derbyn elfennau'r cymundeb o law Archesgob Cymru ei hun. Hefyd, gwahoddwyd Meirion Wynn Jones i gyfansoddi anthem i ddathlu'r achlysur, a gwefr iddo yntau yn ogystal â'r gynulleidfa o tua 300 oedd ei chlywed yn cael ei chanu am y tro cyntaf gan gôr y gadeirlan. Rwyf yn dal i glywed y geiriau canlynol yn fy mhen:

> Duw Dewi a'n Duw ninnau, cadwa di yn Ei gariad,
> Duw Dewi a'n Duw ninnau, adfywia'th enaid di.

Atgoffwyd ni o eiriau olaf cyfarwydd Dewi Sant: "Byddwch lawen. Cedwch y ffydd. Gwnewch y pethau bychain." Ie, i ni wneud y pethau bychain. Anogwyd y gynulleidfa i ymuno ag eraill ar draws Cymru a gweddill y byd o ran hynny i wneud Un Peth Bach gyda'r nod y byddwn gyda'n gilydd yn cyflawni 900 o Bethau Bychain i anrhydeddu Duw Dewi a'n Duw ninnau cyn 1 Mawrth 2024. Beth amdani?



O'r chwith: Yr Athro Medwin Hughes; Andrew John, Archesgob Cymru; Dr Sarah Rowland Jones, Deon Tyddewi; Simon Lloyd, Ysgrifennydd Taleithiol; Leigh Richardson, Is-ddeon Tyddewi

### Gweddi yr Anfon Allan

Hollalluog Dduw, a elwaist dy was Dewi, yn dy gariad at dy bobl, i fod yn oruchwyliwr ffyddlon a doeth ar dy ddirgeleddau. Yn drugarog caniatâ fod i ni, gan ddilyn purdeb ei fuchedd a'i sêl dros holl Efengyl Crist, dderbyn gydag ef dy wobr nefol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob anrhydedd a gogoniant, byth bythoedd. Amen.

*Bill Davies*

## Banc Bwyd Aberafan

Y thema a ddewisodd cyn-Lywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parch. Evan Morgan, ar gyfer tymor ei lywyddiaeth oedd cwestiwn Iesu: "Pa sawl torth sydd gennych?"

A dyna'r cwestiwn a ofynnwyd yng Ngharmel, Aberafan, ddeng mlynedd yn ôl pan aethpwyd ati i gychwyn banc bwyd yn y capel. Ac eto, yn Nhabernacl, Cwmafan, y flwyddyn ganlynol. Ar yr wyneb, ychydig iawn wrth gwrs. Rhif yr aelodaeth? 8! Oedran ar gyfartaledd? 70! Ond ar ôl amser o weddi a holi a gweddi eto, canfuwyd llawer iawn o dorthau a physgod hefyd!

Y dorth gyntaf – adeiladau: Carmel yng nghanol maes parcio mawr a'r Tabernacl yng nghanol y pentref

Yn ail dorth – gwirfoddolwyr di-ri: roedd gan eglwysi a chapeli eraill fyrdd o aelodau oedd yn awyddus i helpu

Y drydedd dorth – haelioni, cariad a chonsýrn pobl Port Talbot a oedd ar dân am roddi, rhoddi a rhoddi

Y bedwaredd dorth – busnesau lleol: cawsom gegin, toiledau, cawod, fan – popeth oedd ei angen arnom

Y bumed dorth – cefnogaeth ariannol Henaduriaeth Morgannwg Llundain

Y chweched dorth – cymorth pobl â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y dasg, megis cyfrifeg.

Penderfynwyd gweithio dan ymbarél y https://www.trusselltrust.org/, mudiad Cristnogol sydd yn cyflogi pobl i'n cynorthwyo gyda diogelu data, diogelu plant ac ati.

Gofynnodd Iesu i'r dyn wrth lyn Bethsaida: "A wyt ti am gael gwellhad?" Cwestiwn oedd ar yr olwg gyntaf yn swnio'n greulon iawn. Ond, wrth gwrs, cwestiwn doeth iawn. Ry'n ni'n gweithio dan yr un un amodau. Mae pawb sy'n dod aton ni am fwyd yn mynd at asiantaeth yn gyntaf i gael cymorth gyda beth bynnag sy'n achosi iddynt fod yn y sefyllfa y maen nhw'n ei hwynebu. Eu helpu nhw tra byddan nhw'n cael eu galluogi i edrych ar ôl eu hunain yw ein gwaith ni.




Mairwen Crocket, blaenor yn y Tabernacl, Cwmafan, a Margaret Jones, blaenor yng Ngharmel, Aberafan, yn yr archfarchnad leol yn casglu at y banc bwyd

Mae hi wedi bod yn bleser ac yn fraint bod yn rhan o'r prosiect yma, ac efallai taw dyma'r lle priodol i ddiolch eto am gefnogaeth yr Henaduriaeth ac yn enwedig y trysorydd, sydd wedi gweithio mor galed i'n cadw ni yn y lle iawn yn gyfreithiol ac yn ariannol. Diolch i bawb!

*Margaret Buckingham Jones*


O'r byd a'r betws — Tudalen 3
Y Silff Lyfrau — Tudalen 5
Cynnal - Adferiad — Tudalen 7

# Y Clasur Anghofiedig




Y Parch. Ddr Phillip Eveson draddododd y ddarlith ar daucanmlwyddiant y Gyffes Ffydd

'Un o gampweithiau pennaf rhyddiaith Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r *Cyffes Ffydd.*' Dyna farn neb llai na Saunders Lewis am *Gyffes Ffydd* y Methodistiaid Calfinaidd a fabwysiadwyd gan y corff yn 1823, ddwy ganrif yn ôl i eleni. Y clasur hwn – clasur anghofiedig yng ngeiriau'r darlithydd – oedd testun Darlith Hanes y Parchg Philip H. Eveson yn y Gymanfa Gyffredinol yng Nghaerfyrddin ar 12 Gorffennaf.

Daeth 'enwad' y Methodistiaid Calfinaidd i fod wedi'r ordeinio yn 1811 a gadarnhaodd yr ysgaru rhwng y Methodistiaid a'r Eglwys Wladol, ond nid oedd gan y corff newydd fynegiant eglur o'i gredo. Cyn 1811 gellid dibynnu ar y ffFramwaith a gynigid gan 39 erthygl Eglwys Loegr, ond ar ôl yr ymwahanu roedd angen datganiad newydd. Lluniwyd y ddogfen pan ddaeth deg arweinydd at ei gilydd i dŷ Robert Davies yn y Stryd Fawr yn Aberystwyth rhwng 10 a 12 Mawrth y flwyddyn honno i rannu'r hyn oedd wedi ei fraslunio eisoes gan arweinyddion Sasiynau'r Gogledd a'r De, a chreu un ddogfen gyfansawdd a fyddai'n ddatganiad o ddiwinyddiaeth y corff cyfan. Cytunwyd ar eiriad y Gyffes, a chymeradwywyd y gwaith gan y ddwy Sasiwn yn ystod 1823.

Yn ei drafodaeth ar y Gyffes Ffydd, pwysleisiai'r darlithydd ei bod yn llinach y Cyffesion clasurol, megis Cyffes Westminster 1648, ond ei bod yn sefyll ar ei phen ei hunan. Yng ngeiriau D. Densil Morgan: 'Er iddi gael ei phatrymu ar y cyffesion Diwygiedig clasurol, Cyffes Westminster yn arbennig, mae'n dwyn ei nodau priod ei hun.'




Llun: Iestyn Hughes

Gwaith John Elias oedd y ddogfen yn bennaf, gyda rhai erthyglau wedi eu cyfansoddi gan awduron eraill. Mynegwyd peth anesmwythyd ar y pryd am eiriad yr erthygl 'Ar y Prynedigaeth' a'i phwyslais ar yr etholedigion yn unig, ond anogwyd dehongli'r ddogfen mewn ffordd eang yn hytrach nag yn gaeth.

Pam, felly, y teimlai Philip Eveson fod y Gyffes yn glasur anghofiedig? Yn yr ugeinfed ganrif bu symudiad yn ei herbyn ar sail tueddiadau diwinyddiaeth ryddfrydol yr oes. Teimlwyd na ellid bellach arddel y gyffes yn ei llawnder yng ngoleuni beirniadaeth Feiblaidd ddiweddar a datblygiadau gwyddonol. Ond pwysleisiai'r darlithydd na fwriadwyd y gyffes i fod yn brawf ar gredo pob unigolyn, ac na ddefnyddiwyd mohoni byth fesul cymal i brofi gweinidogion na blaenoriaid. Yn hytrach, mae'n sefyll yn ddatganiad clasurol o ddiwinyddiaeth Brotestannaidd fel y cofleidiwyd hi gan y Methodistiaid Calfinaidd yn 1823. Nid fel crair y dylid edrych arni ond fel dogfen sylfaen sy'n gosod allan hanfodion y ffydd.

Prysurdeb masnachol a sŵn traffig sy'n nodweddu'r Stryd Fawr yn Aberystwyth heddiw, ond mae arnom ddyled o hyd i'r sawl a gyfarfu yno ddwy ganrif yn ôl. Cynhyrchwyd clasur, ac os nad yw pawb heddiw yn cytuno â phob gair a geir ynddo, mae'n dal yn drysor, ac yn rhan gyfoethog o'n hetifeddiaeth Gristnogol.

*Rhidian Griffiths*

## Llais y Gymanfa 2023

Mae Llais y Gymanfa 2023 bellach ar gael i'w ddarllen drwy ddilyn y ddolen: https://www.ebcpcw.cymru/wp-content/uploads/2023/08/Llais-y-Gymanfa.pdf. Mae'n cynnwys blas ar weithgarwch. Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni, ynghyd â dolenni i wylio recordiadau o'r Cyfarfodydd Cyhoeddus ar YouTube.



# O'r byd a'r betws

## Ymlaen yr af er dued wyf

Pan gyrhaeddais i'r Cymoedd ar ddechrau'r saithdegau, roedd yr eglwysi Cymraeg eu hiaith yn colli tir, ond cofiaf fod cant o eglwysi yng Nghymanfa Dwyrain Morgannwg yn y cyfnod hwnnw. Roedd nifer dda o weinidogion yn dal i fod yn ein plith, a chynhelid popeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bellach mae 75% o'r eglwysi wedi cau, ac eithriad prin yw'r Tabernacl, Caerdydd, yn eu plith, gan fod y gweddill yn gorfod addoli a gweinyddu'r achos drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r un peth yn wir, hyd y gwn i, gyda'r Presbyteriaid a'r Annibynwyr. Dagrau'r achos yw bod yr achosion Saesneg eu cyfrwng yn y Cymoedd yn fregus a phrin yw'r arweiniad ordeiniedig yn eu plith. Gwyddom fod yr Eglwys Wladol a'r Eglwys Gatholig yn yr un man. Dyfalwn mai hanes tebyg sydd ar draws Cymru.

Bu trafod ar y radio (a mannau eraill, mae'n siŵr) am fwriad y gweddill ffyddlon ym Methany, Rhydaman, sydd wedi penderfynu dod â'r achos yno i ben. Roedd fy ewythr, y Parch. Emlyn John, Bae Cemaes, yn arfer dweud y bydd eglwysi bychan Môn yn goroesi'r eglwysi niferus mewn ardaloedd eraill o Gymru, ac efallai ei fod yn llygad ei le.




Cefais hwyl droeon yn tynnu coes ambell un a fynnai ddweud ei fod yn aelod o gapel, drwy ofyn beth oeddynt: drws neu ffenestr, bricsen neu styllen. Nid yr adeilad yw'r eglwys, a braf oedd clywed un o aelodau Bethany yn dweud mewn cyfweliad radio yn ddiweddar fod yr eglwys yn dal yn fyw yn ardal Rhydaman, beth bynnag a ddigwydd i adeiladau bregus fel Bethany. Adnodd yw'r adeilad i'r eglwys ac nid hanfod; cyfrwng cyfleus lle bu profiadau ysbrydol pwysig, ond prin y bu i bregethwyr unrhyw ddiwygiad weld adeilad yn bopeth.

Sut bynnag y byddwn yn mesur tristwch cau adeilad fel Bethany, mae'n bwysicach gofyn ble fydd y gweddill ffyddlon yn profi cymdeithas y ffydd. Mae'n ystrydeb dweud bod sawl eglwys wedi ymrannu ar agweddau dibwys, fel lliw paent ar waliau'r festri, yn hytrach na meithrin sylfeini'r ffydd yn y teulu eglwysig. Ond mae'r oedfa Gristnogol yn dal yn bwysig yn rhaglen y Sioe frenhinol yn Llanelwedd, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel sydd ym Moduan eleni.

Diolch am dystiolaeth eglwysi fel Bethany, Rhydaman, ac fel ym Methania Mair a Martha, onid hanfod eglwys yw bod yna wrando ar eiriau'r Iesu, a rhyfeddu wrth glywed am gariad Duw? Roedd hefyd groeso a haelioni wrth y bwrdd, a chyfle i gymdeithasu fel cyfeillion Iesu, ac roedd profiad o'r Atgyfodiad yn fyw iddynt. Pan ddaw cyffes fel eiddo Martha gynt, sef ei bod yn credu mai Iesu yw'r atgyfodiad, o fewn cymdeithas y credinwyr, mae'r eglwys yn fyw. Beth bynnag eu nifer, mae'r eglwys fyw, yn dathlu ac yn tystio i Iesu, un sydd yng nghanol ein byd. Diolch am ddoe Bethany, ond ymlaen mae Canaan, ac mae'r caeau eisoes yn wynion yn ein bro a'n byd.

*Denzil John*



# O'r Galon

## Yr awr hon y mae yn aros … gobaith

Be wnewch chi pan fydd amgylchiadau'n eich siomi, neu pan fydd stormydd yn eich ysgwyd, a brwydrau bywyd bron â'n llorio? Yn y gyfres hon gan Hywel Edwards fe welsom eisoes sut y gall 'ffydd' yn addewidion yr Arglwydd ein cynorthwyo. Heddiw, cawn drafod pwysigrwydd 'gobaith' yn hanes credinwyr.

Tybed a yw gobaith i chi fel llafn golau'r goleudy?


Llun gan Nico Iseli ar Unsplash

Ar y noson dduaf mae fel goleuni'r goleudy yn troi ac yn ysgubo tuag atom, yn trechu'r tywyllwch, yn codi'r galon gan roi cyfeiriad ac eglurder trwy'r niwl, cyn iddo lifo heibio i ni, cilio draw a'n gadael yn ôl yn y fagddu.

Fe all gobaith, fel ffydd, deimlo'n rhywbeth llithrig iawn i geisio dal gafael ynddo. Mae'n teimlo fel ymdrech, ac mae'r temtasiwn yn fawr i lacio'n gafael a gadael iddo fynd, yn enwedig pan fydd hi'n nos dywyll ar yr enaid. Mae'n anodd gobeithio am y wawr pan fo'r haul yn machlud.

Ond mae'n wir hefyd fod llawer un wedi gweld gobaith yn llithro o'u gafael drwy ddifrawder a chlaerineb calon. Drwy beidio bod â chonsýrn gwirioneddol am bethau pwysig bywyd a thragwyddoldeb, pethau all deimlo'n rhy fawr i boeni amdanynt pan fo bywyd bob dydd mor heriol, neu os yw pleserau bywyd yno i'w mwynhau.

### Gobaith gwag

Mae'r tueddiadau yma mor amlwg yn ein diwylliant heddiw. Nid yw'r gair 'gobaith' ei hun yn golygu llawer iawn mwy na rhyw ddymuniad ysbeidiol am fan gwyn fan draw, yn ddim mwy na mynegiant o ofergoeledd, megis, 'gobeithio y byddi'n gwella'n fuan, *touch wood*'. Rywsut fe ŵyr ein calon y dylem ddymuno rhywbeth gwell, ond nid yw teithi'r meddwl yno bellach sy'n caniatáu i ni fynd yn ddyfnach.

### Y gobaith sy'n disgwyl

'Ond y mae'r rhai sy'n disgwyl wrth yr ARGLWYDD yn adennill eu nerth; y maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino, ac yn rhodio heb ddiffygio.' (Eseia 40:31, BCND)

Darllenwch yr adnod eto, y tro yma yng nghyfieithiad 'William Morgan':
'Eithr y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a adnewyddant eu nerth; ehedant fel eryrod; rhedant, ac ni flinant; rhodiant, ac ni ddiffygiant.' (Eseia 40:31, BWM)

### Nid goddefol yw gobaith ond gweithredol

Nid rhywbeth sy'n sgubo heibio fel llafn y goleudy yw gobaith Beiblaidd, ond rhywbeth gweithredol yn y galon sy'n peri i ni edrych am ei ddyfodiad. Mae mantais fawr gan y deheuwyr yn ein plith oherwydd mae eu defnydd o'r ymadrodd 'disgwyl ymlaen' a'i amrywiol gyd-destunau, yn llawer cryfach nag 'edrych ymlaen'.

Daw'r ystyr i'r gobaith yma yn glir yn narlun y Salmydd o'r gwylwyr yn gobeithio am y bore yn Salm 130, ac ymhellach yn Salm 108:1-2:

> "Y mae fy nghalon yn gadarn, O Dduw;
> fe ganaf, a rhoi mawl.
> Deffro, fy enaid.
> Deffro di, nabl a thelyn.
> Fe ddeffroaf ar doriad gwawr."

Gellir cyfieithu'r ymadrodd olaf yn fwy llythrennol: 'Fe ddeffroaf y wawr', megis yn y fersiwn Saesneg diweddar: 'I will awake the dawn!' (ESV 2016)

Yn ramadegol felly, nid goddefol yw gobaith ond gweithredol; hynny yw, mae gennym ran ynddo, ac nid yw'n ddim ond rhywbeth sy'n digwydd i ni. O ddilyn darlun y Salmydd, yn hytrach na throi a throsi mewn pryder ar ein gwely, rydym i godi a disgwyl – yn wir, i alw am i'r wawr dorri arnom.

### Gobaith a ffydd yn briod â'i gilydd

O feddwl fel hyn, gwelwn fod gobaith a ffydd mewn cydberthynas o ddibyniaeth ar ei gilydd, megis drwy gyfamod priodas. Anodd yw i un oroesi heb y llall; yn yr un modd maent yn gyd-adeiladol.

### O ble y daw ein gobaith?

Byrhoedlog yw unrhyw obaith sydd a'i wreiddiau mewn 'hype' neu ddymuniadau gorau niwlog. O ble, felly, y daw ein gobaith?

Ac aralleirio Salm 121, fy ngobaith 'a ddaw oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear'. Peth peryg yw plygu adnod i'ch defnydd, rwy'n cyfaddef; eto, yr hyn sydd tu cefn i'r salm a'r ymgais am gymorth yw'r gobaith a'r dymuniad amdano a gyflawnir yn yr Arglwydd a'i ofal tragwyddol tyner ohonom.

Yn wir, gellid dweud bod y salm i gyd yn fyfyrdod gan un sydd wedi ymgartrefu mewn gobaith (Actau 2:26).

*Hywel Rhys Edwards*

## Neges gan Einir Jones, golygydd *Cwlwm*, cylchgrawn Chwiorydd y Bedyddwyr:

Mi rydw i'n casgu deunydd ar gyfer rhifyn mis Medi o'r *Cwlwm* ar hyn o bryd.

Os oes gennych unrhyw gyfraniad byddaf yn falch iawn o'i dderbyn, un ai yn y post neu ar ebost.


Y cyfeiriad yw Einir Jones, Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 2BT neu einir.jones@yahoo.co.uk



# Y Silff Lyfrau




Yn fy mhrofiad i dros y blynyddoedd does dim yn fwy tebygol o'n rhannu ni, Gristnogion yma yng Nghymru, na'r modd yr ydym yn dewis dehongli'r Ysgrythur, yn enwedig pan awn ati i ddyfynnu adnodau mewn dadleuon er mwyn trechu ein gwrthwynebwyr. Dywedir am Shylock yr Iddew yn nrama Shakespeare *The Merchant of Venice*: 'Mae'r diafol yn gallu dyfynnu'r Ysgrythur i'w ddibenion ei hun'. Amlygir hyn mewn modd amlwg eithriadol yng nghyfrol Gareth Evans-Jones, *'Mae'r Beibl o'n Tu': Ymatebion Crefyddol y Cymry yn America i Gaethwasiaeth (1838–1868)* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2022, tt. xiv + 340, £19.99). Trafodir mewn manylder mawr y dadleuon a ddefnyddiwyd yng Ngogledd America o blaid ac yn erbyn y gaethwasiaeth yr oedd cymdeithas ac economi'r wlad newydd ar draws yr Iwerydd wedi'i sefydlu arni. Tarddai'r dadleuon hynny o'r ddeutu o astudiaethau manwl o rannau arbennig o'r Beibl.




Rhanna'r awdur ei gyfrol yn bum pennod yn seiliedig ar benodau neu themâu arbennig yn y ddau Destament. Dechreuir gyda'r hyn a elwir yn 'Felltith Cham' yn Genesis 9 a gysylltid gan y garfan a ddadleuai dros gaethwasiaeth â'r Affricaniaid y credid eu bod wedi eu tynghedu i'r cyflwr hwn am byth. Ar y llaw arall, honnai'r Cymry fod yr holl hil ddynol yn tarddu o dri mab Noa, a'u bod hwy'n benodol yn ddisgynyddion i Gomer, un o'i wyrion. Yn yr ail bennod, ystyrir y penodau hynny yn y Pumllyfr sy'n ymwneud â chaethion yn Israel gynt, a rhoddir sylw arbennig i'r cysyniad o Flwyddyn y Jiwbili (Lefiticus 25) a roddai hwb i ddadleuon y garfan a wrthwynebai gaethwasiaeth yn America. Yn y bennod nesaf rhoddir sylw manwl i ddioddefaint yr Iddewon mewn caethglud ym Mabilon a'i gymharu â'r amodau creulon a oedd wedi goddiweddyd y Negroaid ganrifoedd yn ddiweddarach a'u cael yn rhai llawer gwaeth.

Troir ym mhennod 4 i ymchwilio a ellid darganfod unrhyw farn gan Iesu ar y mater: pwysai'r caeth-bleidwyr ar y ffaith na ellid dod o hyd i unrhyw ddatganiad beirniadol ganddo amdano. Cyfeiriai'r diddymwyr at y Rheol Aur (Mathew 7:12), rheol cariad, sef crynodeb o ddysgeidiaeth foesol y Bregeth ar y Mynydd. Rhoddwyd sylw ganddynt hefyd i ddatganiad Paul fod y ddynoliaeth gyfan yn tarddu 'o un gwaed' (Actau 17:26). Roedd pasio Deddf y Caeth Ffoëdig yn 1850 yn peri penbleth difrifol i'r sawl a wrthwynebai gaethwasiaeth, oherwydd nid ar chwarae bach y gellid anufuddhau iddi. Gorfodai unrhyw un a fyddai'n darganfod caethwas ar ffo i'w ddychwelyd i'w feistr, a dangosir sut y bu i lawer a wrthwynebai gaethwasiaeth orfod cyfaddawdu ac ymostwng i'r ddeddf hon, a hynny'n bennaf am eu bod am warchod Undeb y wlad. Dim ond y rhai mwyaf ffyrnig yn ei herbyn a weithredai'n groes iddi, gan seilio'u safbwynt ar y gred y dylid ufuddhau i Dduw yn hytrach na dynion. Er bod Llythyr Paul at Philemon fel petai'n cefnogi'r arfer o ddychwelyd caethwas ar ffo at ei feistr, ymddengys na chafodd 'ei ddefnyddio cyn amled ag y gellid ei ddisgwyl yng nghyd-destun deddf 1850'. Rhydd yr awdur sylw manwl i drafodaethau cyfoes yn ogystal â rhai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn America ac yng Nghymru ar natur y berthynas rhwng Paul, Onesimus a Philemon.




Craidd y gyfrol hon yw'r dystiolaeth a rydd y cannoedd o erthyglau ar fater caethwasiaeth a gyhoeddwyd yn y toreth o gyfnodolion Cymraeg a ymddangosodd yn America yn y cyfnod dan sylw. Fel yr awgrymwyd eisoes, trafodwyd ynddynt dystiolaeth berthnasol y Beibl amdani.

Llwyddodd yr awdur nid yn unig i gyflwyno esboniadaeth a dadleuon Cymry'r cyfnod hwnnw, ond hefyd i gynnwys dehongliadau o'n cyfnod ni er mwyn taflu goleuni newydd ar y deunydd hwn. Yn ogystal, cynhwysodd lawer o sylwadau perthnasol gan frodorion eraill Gogledd America, yn ddu ac yn wyn, o'r cyfnod gynt, gan gyplysu'r cyfan ag astudiaethau cyfoes ar hanes ac effeithiau caethwasiaeth ar gymdeithas Unol Daleithiau America. Yn wir, llwyddodd yn rhyfeddol i wau'r holl agweddau gwahanol hyn i mewn i'w naratif bywiog a hynod ddadlennol. Mae'n gyfrol sy'n hynod berthnasol o ran ei harwyddocâd i'n cyfnod ni, ac yn arbennig mewn perthynas â'r modd y defnyddiwn ac y dehonglwn yr Ysgrythur heddiw.

*John Tudno Williams*

**ADNABOD**



**Cymeriadau'r Hen Destament**

**ABRAHAM**

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 36 Trefnu angladd

### Darllen: Genesis 23

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 15?)

Er nad oes perthynas uniongyrchol rhwng diwedd pennod 22 a dechrau pennod 23, mae awdur Genesis am bwysleisio dau beth i gynorthwyo'i ddarllenwyr. Bellach, mae Abraham a Sarah wedi symud yn ôl i Hebron, i'w cartref fel petai yn y wlad ddieithr yma. Mae tua 17 mlynedd wedi mynd heibio ers y prawf ar ufudd-dod Abraham, a bellach mae Sarah yn 127 oed. Gyda llaw, dyma'r unig achlysur yn y Beibl cyfan lle y cawn gyfeiriad at oed gwraig. Yn ychwanegol at hyn, cawn yn adnodau olaf pennod 22 awgrym cryf o'r modd y mae rhagluniaeth am ddiogelu cymar i Isaac, oherwydd gyda geni plant i frawd Abraham, fe glywn mai un o wyresau ei frawd oedd Rebeca.

Beth bynnag am hynny yn awr, sylwch ar ymateb Abraham i farwolaeth Sarah, 'ac aeth Abraham i alaru am Sara, ac wylodd amdani'. Er ei bod mewn oedran rhyfeddol, mae ymateb Abraham yn gwbl ddealladwy; mae'n galaru ac yn wylo. Fel rhai sy'n gyfarwydd â'r profiad o golli, gwyddom fod atgofion – y chwerw a'r melys – yn dwysáu'r emosiwn mewn amser fel hwn. Gall Abraham gofio adegau o lawenydd, fel genedigaeth Isaac, yn ogystal ag adegau o gywilydd, fel y twyllo yn yr Aifft. Yn ddiddorol iawn, dyma'r unig dro y cawn ef yn wylo; er bod ei galon yn torri pan adawodd Lot, pan adawodd Ismael, pan gafwyd galwad i aberthu Isaac, eto, yn y fan hon yn unig y mae'r dagrau'n llifo. Da yw inni gofio, er bod marwolaeth wedi ei choncro, er nad oes ganddo golyn mwy, eto, mae wedi ei glwyfo i'r byw wrth wahanu. Pan safodd Iesu wrth fedd Lasarus, er ei fod yn gwybod beth oedd ar fin digwydd, eto, wyneb yn wyneb â marwoaleth, torrodd i wylo (Ioan 11:35).

Yng nghanol y galaru mae gwaith cwbl naturiol a chyfarwydd yn awr yn gorfod cael ei gyflawni: rhaid gwneud trefniadau i gladdu Sarah. Mae gweddill y bennod yn mynd â ni drwy'r trefniadau cyfreithiol hyn, ac wrth inni eu hystyried, rwy'n meddwl bod un neu ddau o sylwadau cyffredinol o gymorth. Fe gofiwch fod Abraham yn byw yn bell iawn o'i gartref. Yn wir, ochr yn ochr â chlywed am enedigaeth Rebeca ar ddiwedd pennod 22, mae'r holl hanes, yn arbennig yng nghyd-destun marwolaeth Sarah, yn ein hatgoffa pa mor bell yr oedd Abraham wedi mynd. Wrth geisio darn o dir mae'n atgoffa pobl y wlad, 'Dieithryn ac ymdeithydd wyf yn eich mysg; rhowch i mi hawl ar fedd yn eich plith, er mwyn imi gael claddu fy marw' (adn. 4).

Er bod y wlad hon wedi ei haddo iddo ef a'i ddisgynyddion mewn addewid gafodd ei hailadrodd, eto, ni ddaw perchnogaeth ohoni nes i Josua arwain y goncwest, a rhoi'r darn yma i Caleb: 'Bendithiodd Josua ef a rhoddodd Hebron yn etifeddiaeth i Caleb fab Jeffunne' (Josua 14:13). A dychwelyd at yr adnodau yn Hebreaid 11, 'Trwy ffydd yr ymfudodd i wlad yr addewid fel i wlad estron, a thrigodd mewn pebyll, fel y gwnaeth Isaac a Jacob, cydetifeddion yr un addewid. Oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi … Mewn ffydd y bu farw'r rhai hyn oll, heb fod wedi derbyn yr hyn a addawyd, ond wedi ei weld a'i groesawu o bell, a chyfaddef mai dieithriaid ac ymdeithwyr oeddent ar y ddaear' (Hebreaid 11:9–10,13).

Rhywbeth arall sy'n arwyddocaol i ni yn ein cenhedlaeth yw gofal Abraham wrth ymdrin â chorff marw ei wraig. Roeddwn yn darllen yn ddiweddar am drefniadau angladd sy'n cael eu cymeradwyo oherwydd nad ydynt yn esgor ar gost sylweddol, a braidd yr ydych yn trosglwyddo gofal y corff marw heb fynnu unrhyw wybodaeth am yr hyn a ddigwydd i hwnnw. Peth chwithig i'r Cristion yw'r math hwn o syniad, gan ein bod yn credu yng ngwerth hyd yn oed y meidrol. Gwaith arbennig Duw yw ein creu: 'Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol, ac y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol' (Salm 139:14). Dyma lle y bu teml yr Ysbryd; 'oni wyddoch fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glân sydd ynoch, yr hwn sydd gennych oddi wrth Dduw' (1 Corinthiaid 6:19), ac er ei hau 'mewn llygredigaeth, cyfodir mewn anllygredigaeth. Heuir mewn gwaradwydd, cyfodir mewn gogoniant. Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth. Yn gorff anianol yr heuir ef, yn gorff ysbrydol y cyfodir ef' (1 Corinthiaid 15:42–3).

I Abraham, doedd dim yn ormod er sicrhau claddfa, ac mae'n mynd i gost sy'n anrhydeddu'r gwerthwr a thrwy hynny'n diogelu darn o dir i Sarah, iddo yntau, ac yn ddiweddarach i Jacob: 'daeth ei feibion ag ef i wlad Canaan a'i gladdu ym maes Machpela' (Genesis 50:13). Yr un pryd, mae prynu'r darn o dir yma'n arwydd o'i hyder yn addewid Duw y byddai'r wlad yn dod yn eiddo iddo. Fe gofiwch, mae'n siŵr, i Jeremeia, pan gaethgludwyd y genedl, brynu darn o dir ar sail ei hyder y byddai Duw yn adfer y wlad: 'Yna prynais y maes yn Anathoth gan fy nghefnder Hanamel, a phwysais iddo yr arian, dau sicl ar bymtheg … Oherwydd fel hyn y dywed ARGLWYDD y Lluoedd, Duw Israel, "Prynir eto dai a meysydd a gwinllannoedd yn y tir hwn".' (Jeremeia 32:9,15)

1. Trafodwch y balans ym mywyd y Cristion rhwng galaru ac wylo priodol, ac anogaeth Paul yn 1 Thesaloniaid 4:13: 'rhag ichwi fod yn drallodus, fel y rhelyw sydd heb ddim gobaith'.

2. Wrth feddwl am adnodau 6, 11 a 13, ym mha ffyrdd y byddwn ni'n euog o fanteisio ar garedigrwydd pobl i sicrhau arbediad neu elw personol?

3. Beth mae'r ffordd rydym yn ymdrin â chorff marw yn ei ddweud am ein golwg ar obaith y Cristion?

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 13 Awst, am 7:30yb a 16:30yp**
Steffan Watkins yn cyflwyno Côr Godre'r Garth yn canu detholiad o emynau

**Sul, 13 Awst, am 12yp**
Oedfa Radio Cymru dan arweiniad Lois Franks, Tonypandy

# Cynnal?

Mae'r gair cynnal yn rhan o'n geirfa fel Cymry Cymraeg – byddwn yn cynnal ein teuluoedd, yn cynnal gwasanaethau Cristnogol, yn cynnal breichiau'n gilydd, yn cynnal gwasanaethau megis y GIG/NHS trwy'n trethi, ac yn cyfrannu'n ariannol i gynnal cymdeithasau ac elusennau sy'n cynorthwyo aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas. Ac felly, mor addas yw'r enw Cynnal ar wasanaeth cwnsela arbennig iawn sy'n cynnig cymorth i glerigion, gweinidogion yr Efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd. Wrth eu gwaith mae'r gweithwyr Cristnogol hyn yn gwneud eu gorau i gynnal eraill a chynnig cymorth yr Efengyl, ond, yn eu tro, weithiau mae angen cymorth arnynt hwy eu hunain. Sefydlwyd Cynnal i'r union bwrpas hwnnw.

Mae CYNNAL yn delio â phob math o broblemau ac yn dilyn trywydd cyfannol sy'n mynd i'r afael â'r rhyngweithio sydd rhwng y meddwl, y corff a'r enaid. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod dimensiwn ysbrydol bywyd ac, os yn briodol, yn cyfeirio pobl ymhellach tuag at arweiniad ysbrydol arall. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

### Oes galw am y gwasanaeth hwn?

Dywed Wynford Ellis Owen (Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol ac Arweinydd Cynnal) fod galw am help CYNNAL oherwydd gor-ddibyniaeth ar sylwedd, neu ymddygiad niweidiol (alcohol, cyffuriau, gamblo, gorbryder, gwylio pornograffi, caethiwed i chwarae gemau, anhwylderau bwyta, er enghraifft) a'r dioddefaint corfforol, meddyliol, ac ysbrydol anorfod sy'n dilyn. Mae gwaith cefnogi ac ôl-ofal hirdymor unigryw CYNNAL yn parhau, gyda 210 ar y llyfrau ar hyn o bryd, a 79 ohonynt yn achosion byw, cyfredol. Ar gyfartaledd, mae Wynford yn cynnal 35 o sesiynau cwnsela wyneb yn wyneb neu'n rhithiol bob mis, yn ogystal â chefnogi tri grŵp therapi wythnosol, a thri arall yn fisol. Bob mis, ar gyfartaledd, mae 170 yn mynychu'r grwpiau hyn. Mae hefyd yn cefnogi gwasanaeth y Stafell Fyw.

### Yr ochr ymarferol

Mae patrwm gwaith Wynford yn cynnwys cymorth therapi, gwaith cwnsela, eiriolaeth, hyfforddi ac arolygu eraill sy'n ymwneud â'r gwaith, yn ogystal â gwaith gweinyddol. Mae'r gwaith yn digwydd yng Nghaerdydd, Aberystwyth, Caerfyrddin, ac yn y gogledd yn ôl y galw. Ceir sesiynau wyneb yn wyneb, cyfarfodydd rhithiol a rhai hybrid. Yn bwysig iawn hefyd, ceir Grŵp Adfer ar-lein i Gymru gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg

### Pwy sy'n gwneud y gwaith?

Yn ogystal â'r Cyfarwyddwr, Wynford Elis Owen (sydd wedi cymhwyso fel Ymgynghorydd Cwnsela Proffesiynol), mae pedwar person wedi'u cymhwyso i fod yn wirfoddolwyr gan fodloni criteria Adferiad Recovery (y mudiad ambarél sy'n cynnwys Cynnal) ac wedi derbyn Tystysgrif DBS Uwch. Disgwylir i'r gwirfoddolwyr feddu ar lefel gadarn o wybodaeth ym maes gwaith grŵp, arferion cwnsela, materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, ac maent yn cynorthwyo gydag ochr ymarferol a gweinyddol y gwaith.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn y ffordd fwyaf proffesiynol a safonol, ac mae Wynford a'r gweithwyr eraill yn derbyn goruchwyliaeth glinigol gan oruchwyliwr cwnsela Adferiad Recovery yn unol â'r safonau proffesiynol disgwyliedig.

### Yn ychwanegol?

Mae Cynnal yn anfon allan weddïau i'r eglwysi adeg y Nadolig a'r Pasg, ac yn paratoi gwasanaeth arbennig ar gyfer Sul Adferiad Cymru, sef Sul olaf mis Hydref. Cynhelir encil fel estyniad i'r gwaith cwnsela. Thema'r encil diwethaf oedd 'Byw y bywyd Ysbrydoledig' ac astudiwyd Rhaglen Adfer 12 Cam, a 6 Cham Adfer y Stafell Fyw yn ogystal ag egwyddorion allweddol cariad a maddeuant. O ddysgu teimlo ein hemosiynau yn hytrach na'u hofni, gellid dileu pob caethiwed. Yn ei hanfod, mae'n ymwneud â dysgu cofleidio ochr ddu'r enaid. Ni ddylid gohirio neu osgoi pethau mwyach, ond dod o hyd i bŵer sy'n fwy na ni ein hunain i'n helpu i fyw.

Dyma ymateb gan rai o fynychwyr yr encil

- "Nid wyf yn gwybod lle y byddwn wedi bod heb y gwasanaeth hwn. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr holl gefnogaeth rwyf wedi'i derbyn."
- "Rwy'n deall mwy am sut rwy'n gweithio'n seicolegol yn dilyn yr encil hwn. Mae'r ddealltwriaeth hon yn fy helpu i ymresymu a derbyn fy ymddygiad. Rwy'n deall pwysigrwydd caru fy hun yn gyntaf."

### Pwy sy'n cynnal Cynnal?

Derbynnir grantiau oddi wrth Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, a hefyd gan rai o gyfundebau a chymanfaoedd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'r Bedyddwyr, ac unigolion sy'n gweld pwysigrwydd y gwaith.
Dengys y sylwadau isod pa mor bwysig yw gwaith a chenhadaeth Cynnal.

- "Heb Cynnal rwy'n sicr na fyddwn wedi gallu cario mlaen fel gweinidog wedi i mi ddechrau dioddef gyda 'stress' yn ddiweddar. Alla i ddim diolch digon iddyn nhw."
- "Rydw i mor ddiolchgar fy mod i'n gwella. Heb eich help chi a help Duw fyddwn i ddim yn fyw heddiw, ond rydw i yn fyw, ac mae pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn. Diolch o galon!"

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth i waith Cynnal o ran eich cyfraniadau ariannol a'ch gweddïau.

Diolch o galon,

*Wynford Ellis Owen*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Adferiad ac adnewyddiad

### Emyn 511 'Agorodd ddrws i'r caethion'

### Darlleniad – Genesis 37:1–36

Byddai llithro dros yr adnodau hyn er mwyn cyrraedd pen draw hanes Joseff yn demtasiwn hawdd i syrthio iddo. Wedi'r cyfan, mae'r hanes am Joseff yn cael ei ddyrchafu'n 'brif weinidog' yr Aifft, er mwyn gwaredu ei dylwyth, yn stori llawer mwy rhamantus a deniadol na'r hanes am ei frodyr yn ei daflu i bydew a'i werthu'n gaethwas i'r Aifft.

Er y cawn ddeall yn ddiweddarach fod yr Arglwydd gyda Joseff (39:2) a bod yna, oherwydd y gofal tyner hwn, bwrpas neu ddiben i'r amgylchiadau heriol a ddaeth i'w ran, pennod yw hon sydd heb sôn am yr Arglwydd ynddi o gwbl. Pwy ohonom na allwn ddychmygu'r 'tywyllwch' emosiynol, ysbrydol, neu feddyliol a gaethiwodd Joseff wrth i'w frodyr gefnu arno, wrth iddo golli amddiffyn ei deulu a'i gaethiwo yn yr Aifft?

### Twyll ac anonestrwydd

Twyllodd Jacob ei dad, Isaac, drwy ladd gafr ac esgus mai gwar ei frawd y cyffyrddai Isaac ag ef. Y tro hwn, lladdwyd gafr i dwyllo Jacob.

Roedd Jacob wedi gweithio i Laban am flynyddoedd a'i dwyllo am na dderbyniodd gyflog teg ganddo. Yn awr twyllwyd Jacob gan ei feibion yntau gyda disgynyddion yr union braidd a lwyddodd i'w ennill gan ei dad yng nghyfraith.

Roedd Joseff hefyd yn hel straeon ac yn adrodd hanesion celwyddog wrth ei dad am ei frodyr (adn. 2). Cadarnhau ffafriaeth Jacob tuag at ei fab Joseff a wnaeth yr hanesion hyn (adn. 3). Ond roedd canlyniadau poenus a mannau creigiog ar lwybr Joseff oherwydd yr hyn a ddywedodd am ei frodyr.

### Ffolineb a dicter

Heblaw am hel straeon am ei frodyr, roedd Joseff hefyd yn sobor o annoeth. Rhyfeddol oedd ei ddawn i ddehongli bwriadau'r Arglwydd! Un peth oedd derbyn addewid. Ond mynnai Joseff adrodd ei freuddwydion wrth ei frodyr: y byddai'n llwyddiannus iawn fel seren ddisglair yn eu ffurfafen ac y byddai ei deulu i gyd yn cydnabod hynny ryw ddydd (adn 5–11). Sôn am roi cynnud ar y tân!

Roedd brodyr Joseff eisoes yn eiddigeddus ohono am ei fod yn ffefryn i'w dad, a 'rhoesant eu cas arno fel na fedrent ddweud gair caredig wrtho' (adn. 4). Yn wir, 'aethant i'w gasáu ef yn fwy eto o achos ei freuddwydion a'i eiriau' (adn. 8). Cymaint yn wir oedd ei ymffrost annoeth nes i'w dad ei geryddu hyd yn oed. Ond roedd eiddigedd eisoes yn cronni yng nghalonnau ei frodyr (adn. 9–11).

### Twyll a chalon-galedwch

Dim ond aros ei gyfle a wnaeth yr eiddigedd cyn iddo'i fynegi ei hun mewn dull didrugaredd ym mhenderfyniad ei frodyr. Yn wir, cyn i Joseff ymweld â'i frodyr, roeddynt eu hunain yn unigol wedi paratoi cynllwyn i'w ddifa, ymhell cyn iddo gyrraedd atynt (adn. 18), ac ymhell cyn i'r dull o'i ddifa gael ei gytuno ganddynt (adn. 19–20). Roedd eu dicter tuag ato yn ddwfn, yn wir mor ddwfn â'r pydew sych y taflwyd Joseff iddo i farw o syched.

Ond rhaid bod dicter y brodyr yn greulon o galon galed iddynt fedru 'eistedd i fwyta' (adn. 25) gerllaw'r pydew. Byddai llais Joseff yn pledio am drugaredd wedi torri ar eu clyw. Ond ni chyffyrddodd ei ymbil ar eu cydwybod.

Ond nid oedd eu calon-galedwch yn gyflawn eto.

Hyd yn oed wedi gwerthu Joseff i'r Midianiaid a'i gludo i'r Aifft yn gaethwas, rhaid oedd cwblhau'r twyll. Lladdwyd gafr i drochi gwisg Joseff ynddo. Twyllwyd Jacob ganddynt i gredu bod Joseff wedi cael ei larpio gan anifail gwyllt. Ac er iddynt bob un weld yr effaith a gafodd y newyddion gau ar eu tad cwblhawyd y twyll mewn arddangosiad o ragrith calon-galed. Cawod o ddagrau crocodeil oedd eu cydymdeimlad â'u tad (adn. 35).

### Teulu a theulu'r ffydd

Mor rhwydd yw rhwygo teulu neu eglwys! Nid yw'r Ysgrythurau'n naïf i ddrwg effeithiau balchder, neu gario clecs maleisus, o fewn teuluoedd, nac ychwaith o fewn teulu'r ffydd (Diarhebion 20:19). Roedd yr arferiad o hel clecs, o fod yn 'glepgwn' neu'n gynllwynwyr maleisus, yn ôl y Testament Newydd, yn dangos cymuned syrthiedig dan gondemniad dwyfol (Rhufeiniaid 1:29–32). Yn wir, ffrwyth hel straeon maleisus yw 'cynnen, eiddigedd, llidio, ymgiprys, difenwi, clebran, ymchwyddo, terfysgu' yn y byd ac yn nheulu'r eglwys (2 Corinthiaid 12:20 ymlaen).

### Gweddi

Arglwydd, cyffeswn gyda dagrau, y gall torri ar berthynas aelodau o'r un teulu glwyfo i'r byw. A chlywsom ddigon am ddrwg effeithiau cario clecs maleisus o fewn y byd a'r eglwys. Arglwydd, yn ein gwendid, trugarha wrthym; yn ein hymbellhau oddi wrth ein gilydd, trugarha wrthym. Arglwydd, adfer ni i fod yn deuluoedd cyflawn, yn gymunedau maddeugar, yn gymdeithas dirion. Amen.

### Emyn 863 'Pwy all blymio dyfnder gofid'

### Darlleniad – Salm 85:1–13 – Dyhead am adferiad

### Gweddi

Mewn byd o anffyddlondeb, o dorri ar berthynas pobl â'i gilydd, Arglwydd, fe'th geisiwn di. Fel dy bobl ym mhob oes, ceisiwn heddiw dy fendith neilltuol di. Diolchwn i ti dy fod yn ffyddlon i'th addewid bob amser. Ti yw'r hwn sy'n bywhau, yn adfer ac yn bendithio. Oddi wrthyt ti yn unig y daw pob symbyliad grasol, pob gallu iachusol, adferol a bywiol – popeth yn wir yr hiraetha ein calonnau amdano. Ti sy'n adfer llwyddiant dy eglwys drwy faddau ein camwedd a dileu ein holl bechod. Ti sy'n ein cadw yng Nghrist rhag profi'r hyn a haeddwn, rhag wynebu dy lid. Ti, ein hadferwr, yw'r hwn sydd hefyd yn ein hiacháu.

Arglwydd, gwêl ni yma eto heddiw yn pledio am dy ddawn adferol i'n bywhau. Nid oes i ni obaith oni fyddi di'n ein hadfer, yn deffro llawenydd ynom. Dangos i ni drachefn a thrachefn, Arglwydd, dy ffyddlondeb i'th air, a chaniatâ i ninnau glywed dy addewidion yn dwyn heddwch i'n calonnau toredig.

Arglwydd, dyhead ein calonnau yw cael gweld dy ogoniant yn aros yn ein tir.

Ar sail dy drugaredd, ar sail yr hyn a wnaethost drwy dy Fab Iesu Grist ar Galfaria fryn, ar sail y tywalltiadau grasol hynny o'th Ysbryd i'n bywhau, clyw ni. Ac wrth edrych arnat, gwelwn fod cyfiawnder a thrugaredd eisoes wedi cyfarfod ynddo ef a bod cyfiawnder pur a heddwch wedi cusanu euog fyd yn Iesu Grist.

Cusana dy eglwys drwy dy Ysbryd Glân, drugarog Arglwydd, fel y bydd cyfiawnder a thosturi yn blaguro yn ein byd. Rhodia yn ein plith drachefn, a rho i ninnau'r ymwybyddiaeth y gallom brofi gwir heddwch. Arglwydd, clyw ni. Amen.

### Emyn 205 'Dyma gariad fel y moroedd'

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru